**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 MAWRTH 2010** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 IONAWR 2010** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o'r 1$^{af}$ Rhagfyr 2009 hyd at 31$^{ain}$ Ionawr 2010.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y 2 fis hyd at 31$^{ain}$ Ionawr 2010:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol am Archwiliadau a Gynlluniwyd | 17 |
| Archwiliad Ymatebol | 1 |
| Adroddiadau eraill (memoranda ayb) | 2 |
| Archwiliadau Dilyniant | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31ain Ionawr, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Ysgolion | Ysgolion Cynradd - Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw | C | Atodiad 1 |
| Corfforaethol | | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | B | Atodiad 2 |
| Corfforaethol | | Telerau Contractau a Dogfennau Tendro | B | Atodiad 3 |
| Cyllid | Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | Rheolaeth Trysorlys | B | Atodiad 4 |
| Cyllid | Cyfrifeg | Cysoni Banc | A | Atodiad 5 |
| Cyllid | Cyfrifeg | Praeseptau | A | Atodiad 6 |
| Cyllid | Cyfrifeg | Addysg All-Sirol - Trefniadau Anfonebu | B | Atodiad 7 |
| Cyllid | Refeniw | Trethiant Lleol - Cytundeb Argraffu | B | Atodiad 8 |
| Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | Cartref Pobl Hyn Plas y Don, Pwllheli | B | Atodiad 9 |
| Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | Gwasanaeth Morwrol | B | Atodiad 10 |
| Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | Yr Hafan, Pwllheli | B | Atodiad 11 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo (Rhan 1) | B | Atodiad 12 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad | C | Atodiad 13 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | Plant - Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig | C | Atodiad 14 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | Safleoedd Gwastraff Ailgylchu | B | Atodiad 15 |
| Tai | Cefnogi Pobl | Cefnogi Pobl | A | Atodiad 16 |

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Tai | Rhent a Rheolaeth Tai | Cynllun Warden Stâd | B | Atodiad 17 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- Grant Addysg ôl-16 *(Addysg)*
- Llywodraethu Corfforaethol - Adolygiad Cymharol *(Corfforaethol)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL YR ADRODDIAD | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Incwm Ffioedd Trafnidiaeth | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2010**
Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa
Taliadau Ysgolion Uwchradd
Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2010**
Cartref Pobl Hyn Cefn Rodyn, Dolgellau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2010**
Canolfan Denis Arfon
Canolfan Hamdden Penllyn
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon
Rheolaeth Cyfluniad
Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol
Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2010**
Trefniadau Recriwtio Ysgolion Cynradd

## 2.4 Archwiliad Ymatebol

2.4.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol i wariant ar Integreiddio disgyblion ag anghenion addysgol arbennig i'r prif lif ar gais y Pennaeth Cyllid a'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad a gynhyrchwyd wedi ei gynnwys fel Atodiad 18.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1af Chwefror 2010.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Cynnal Tiroedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Diogelwch Asedau a Storfeydd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru *(Strategol a Gwella)*
- Trefniadau Rheolwyr Cyfrif Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Addasiadau Lles: Monitro, Rheolaeth a Gorfodaeth *(Tai)*
- Pensiynau - Trosglwyddiadau i Mewn ac Allan ac Ad-daliadau *(Cyllid)*
- Pensiynau - Grantiau Marwolaeth *(Cyllid)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle *(Corfforaethol)*
- Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Taliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Eithriadau, Tai gwag ayb *(Cyllid)*
- Treth Di-Annedd - Rhestr Brisio *(Cyllid)*
- Gweithredu'r Adolygiad Tâl Lleol *(Cyllid)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Corfforaethol)*
- Dychweliadau Treth *(Cyllid)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Trwyddedau Systemau Cyllid *(Cyllid)*
- Pensiynwyr Newydd *(Cyllid)*
- Logio a Monitro *(Gofal Cwsmer)*
- Hyfforddi Aelodau *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Cytundebau Adran 106 *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Integreiddio *(Addysg)*
- Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Ysgol Y Gader *(Addysg)*
- Ysgol Y Moelwyn *(Addysg)*
- Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr *(Economi a Chymuned)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Arian Personol Preswylwyr Cartrefi *(Darparu a Hamdden)*
- Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Contractau a Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Trefniadau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd (Cynllun 3 blynedd) *(Tai)*
- Cyfrifon Terfynol: Tai *(Tai)*
- Dilyniant - Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1af Rhagfyr 2009 i 31ain Ionawr 2010, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# YSGOLION CYNRADD - TREFNIADAU RECRIWTIO STAFF ATEGOL AC ATHRAWON LLANW
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle yn y broses o recriwtio staff ategol ac athrawon llanw yn ysgolion cynradd Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r trefniadau yn y broses o adnabod yr angen i benodi staff yn ogystal â'r broses o recriwtio'r staff.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oedd pob amser digon o brawf yn bodoli yn yr ysgolion i gefnogi bod y Panel Penodi / Corff Llawn yn rhan o'r broses recriwtio staff gan nad oedd yr ysgolion yn cadw digon o dystiolaeth o'r broses.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau recriwtio staff ategol ac athrawon llanw yn Ysgolion Cynradd Gwynedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau os yw pennaeth yn adnabod yr angen am benodiad staff newydd bod y mater yn cael ei drafod yn drylwyr a'i gytuno gyda'r corff llawn/panel penodi'r ysgol a bod cofnodion yn cael eu cadw o'r cyfarfod.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'r penderfyniad ar lunio'r rhestr fer i swyddi o fewn ysgolion, yn cael ei gadw er mwyn gallu profi bod neb yn derbyn ffafriaeth dros eraill.**
- **Dylai'r panel penodi / corff llawn gymryd fwy o ran yn y broses penodi staff ategol a rhaid i'r cyfraniad hwn gael eu nodi mewn cofnodion fel prawf.**
- **Pan yn cyfweld unigolion, dylai Penaethiaid ofyn am brawf o unrhyw gymhwyster sydd wedi'i nodi ar CV yr ymgeisydd a chadw copïau o'r prawf drwy oes cyflogaeth yr unigolyn ar ffeil Personél y staff yn yr ysgol.**
- **Dylai Penaethiaid sicrhau bod gwiriad CRB wedi ei wneud ar bob staff newydd a apwyntir ac wrth ddisgwyl i'r gwiriad ddod yn ôl dylid sicrhau bod yr aelod o staff yn cael eu goruchwylio wrth weithio gyda'r plant.**
- **Dylid ceisio sicrhau nad yw unrhyw athro/athrawes yn derbyn swydd mewn ysgol yng Ngwynedd cyn bod eu gwiriad CRB wedi ei chlirio.**
- **Dylid sicrhau bod unigolion lle nad oes geirda wedi eu derbyn ar eu cyfer ddim yn cael mynd ar restr swyddogol athrawon llanw y Cyngor.**
- **Gan fod manylion sydd ar ddogfennau CRB yn gallu bod yn sensitif, dylid eu cadw dan glô a hefyd eu dinistrio ar ôl chwe mis oni bai fod rheswm penodol dros eu cadw am gyfnod hirach.**

## TREFNIADAU EITHRIO O'R GYFUNDREFN HYFFORDDI GORFFORAETHOL
**Corfforaethol**

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau priodol ar gyfer eithrio swyddogion o hyfforddiant sydd wedi ei ddynodi'n hanfodol iddynt yn y matrics hyfforddi, gan sicrhau bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant sydd yn berthnasol i'w swydd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Bydd yr archwiliad yn adolygu trefniadau dynodi categorïau hyfforddi ar gyfer staff, trefniadau'r Adrannau o benderfynu os dylid eithrio swyddog rhag mynychu hyfforddiant yn ogystal â threfniant adolygu'r eithriadau fel rhan o'r broses gwerthuso blynyddol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Mynegodd y Rheolwr Hyfforddi bod hyfforddiant yn bwysig i swyddogion y Cyngor allu gwneud eu gwaith i safonau uchel. Mae gan swyddog yr hawl i eithrio ei hunan o hyfforddiant ac yn unol â'r gofynion, os yw'r hyfforddiant wedi ei ddynodi ar gyfer "Pawb", yna bydd rhaid cael cytundeb y Rheolwr Llinell cyn y gellir eithrio ac yna dylai bod yr eithriadau yn cael eu gwirio gan Uwch Reolwr. Ymddengys nad yw'r drefn eithrio wedi cael ei dilyn yn briodol oherwydd darganfuwyd bod rhai swyddogion wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer nifer uchel o eithriadau. Cafodd y mater hwn ei adolygu gan yr Gwasanaeth Hyfforddi ac adroddwyd y mater i uwch reolwyr a rheolwyr y Cyngor ond yn anffodus gwelwyd ond ychydig o newidiadau fel canlyniad.

Yn ystod yr archwiliad gwelwyd bod trefniadau eithrio o'r matrics hyfforddi wedi cael eu sefydlu ond roedd anghysondebau yn bodoli sydd o ganlyniad yn lleihau effeithiolrwydd y bas data. Y prif resymau dros hyn yw bod diffyg hyblygrwydd o fewn y sustem bas data hyfforddi ynghyd â'r gwahanol newidiadau sydd wedi digwydd yn ychwanegol i'r bwriad gwreiddiol. Cydnabyddir bod y Rhaglen Hyfforddi – sef y matrics yn beth sy'n datblygu'n barhaus ac yn esblygu'n naturiol.

Darganfuwyd bod rhai swyddogion wedi medru eithrio o hyfforddiant gan nad oedd eu rheolwr llinell neu uwch rheolwr wedi cymryd cyfrifoldeb a digon o ystyriaeth o'r eithriadau. Yn ddelfrydol, dylid adolygu "eithriadau" unigolion yn rheolaidd fel rhan o broses rheoli staff a rhaid ystyried y gall anghenion hyfforddi unigolyn newid am nifer o resymau megis newid mewn dyletswyddau neu flaenoriaethau'r Cyngor yn newid.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai bod y Pennaeth neu Uwch Reolwr yn cadarnhau cywirdeb y categori hyfforddi ar gyfer staff eu hadran ac adrodd ar eu priodoldeb i'r Cymhorthion Hyfforddi.**
- **Dylai'r Uwch Reolwyr ganfod a yw'r categori hyfforddiant yn berthnasol i'r swydd os oes nifer uchel o eithriadau ar sail categori C – "ddim yn berthnasol i'r swydd".**
- **Dylai'r Rheolwyr Llinell wirio'r categori hyfforddi ar gyfer eu staff (cyfle i wneud hyn yn y broses Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) a hysbysu'r Gwasanaeth Hyfforddi. Yn ychwanegol, dylai gwybodaeth am newidiadau mewn swyddi/dyletswyddau swyddogion gael eu gwirio i sicrhau cywirdeb y categori hyfforddi.**

# TELERAU CONTRACTAU A DOGFENNAU TENDRO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod telerau contractau a dogfennau tendro Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio â Rheolau Sefydlog.

Cwmpas yr Archwiliad

Lluniwyd yr adroddiad drwy ddilyn sampl o 5 tendr ac adolygu'r ffeiliau â'r broses gafodd ei ddilyn. Hefyd, bod yn bresennol ar adeg agor y tendr gan yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol a gwirio'r drefn.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd :

- Diffyg datganiad safonol ar gyfer datganiadau llwgrwobrwyaeth a llygredd.
- Dogfennau tendro yn cael eu cadw gan Ymgynghorwr yn hytrach na'u hanfon ymlaen i'r Cyngor.
- Swyddog oedd yn gyfrifol am osod y contract yn bresennol pan agorwyd y tendr.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhelerau Contractau a dogfennau Tendro. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu, ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Gaffael greu datganiad ar reolau yn ymwneud a llwgrwobrwyaeth a llygredd, ac yna cyfathrebu a dosbarthu'r rhain ar draws Wasanaethau'r Cyngor er mwyn cael cysondeb yn y dogfennau tendro.**
- **Dylid sicrhau fod pob dogfen tendr a anfonir i'r contractwyr yn cynnwys 'Tystysgrif Gwrth Cydgynllwynio'**
- **Dylid sicrhau fod dogfennau tendro, sydd wedi cael eu trin gan ymgynghorwyr, yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor wedi i'r contract gael ei gwblhau.**
- **Awgrymir fod amlenni'r tendrau yn cael eu cadw ar ffeil y contract fel tystiolaeth fod y contractwr wedi cydymffurfio a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.**
- **Dylid sicrhau nad yw'r swyddog sydd wedi ei enwebu i fod yn bresennol pan agorir y tendrau hefyd yn gyfrifol am osod y tendr.**

# RHEOLAETH TRYSORLYS
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn briodol ac yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a threfniadau rheoli risg y Cyngor. Hefyd, sicrhau fod y gwasanaeth a dderbynnir gan ymgynghorwr rheolaeth trysorlys yn briodol, perthnasol ac ystyrlon.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r ddogfennaeth a pholisïau rheolaeth trysorlys, cofrestr risg y Cyngor a gwirio trefniadau monitro perfformiad yr ymgynghorwr. Hefyd, gwirio fod y drefn monitro gweithgareddau rheolaeth trysorlys yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 15 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 7 o'r meysydd hyn, a rheolaeth mewnol boddhaol yn 5 o'r meysydd.

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn golygu fod y nifer o sefydliadau y gall y Cyngor fuddsoddi gyda hwy wedi lleihau ac nad oes risg o golled ariannol i'r Cyngor gan eu bod yn buddsoddi gyda sefydliadau sydd yn rhan o gynllun gwarant y Llywodraeth. Rhydd hyn gyfle i'r Cyngor wneud cais i ymgynghorwyr eu cynorthwyo i arwain ar baratoi polisïau newydd a'u gweithredu pan fydd yr economi yn sefydlogi.

Sefydlwyd gweithgor o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, ac un o ddyletswyddau'r gweithgor yw craffu ar faterion rheolaeth trysorlys. Nodwyd bod cyfarfodydd wedi eu cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth yr aelodau ynghylch rheolaeth trysorlys. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y bydd yn trefnu sesiwn hyfforddiant ar gyfer yr aelodau hynny sydd yn gyfrifol am graffu ar faterion rheolaeth trysorlys.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Pennaeth Cyllid wneud cais i'r ymgynghorwyr ddechrau ar y gwaith o baratoi polisi sydd yn manylu y dylid cael amrywiaeth yn y math o sefydliadau, gwledydd neu sector gall y Cyngor fuddsoddi gyda hwy, gan weithredu'r polisi pan ddaw newid i'r economi.**
- **Dylid adolygu perfformiad yr ymgynghorwr yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a dderbynnir yn addas ac yn cwrdd â gofynion y cytundeb.**

# CYSONI BANC
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer cynnal cysoniadau banc.

Cwmpas yr archwiliad

Adolygwyd y gweithdrefnau a threfniadau mewn lle ar gyfer cysoni banc a meddiannwyd y dogfennau perthynol ynghyd â copïau o'r taflenni a chefnogaeth ar gyfer cysoniadau misoedd Hydref a Thachwedd 2009.

Yn ystod yr archwiliad, adolygwyd y trefniadau sydd mewn lle i reoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r amcanion rheolaethol canlynol:

- Fod gweithdrefn swyddogol a ffurfiol mewn lle ar gyfer cynnal cysoniadau banc effeithiol.
- Fod y cysoniadau banc yn cael eu cynnal yn amserol ac eu bod yn gyflawn a chywir.
- Fod data a dogfennau yn ymwneud â banciau yn cael eu diogelu a'u cadw i bwrpas ymchwiliad yn unol â gofynion deddfwriaeth, polisïau'r Cyngor ac ymarfer da.

Prif Darganfyddiadau

Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da mewn lle ar gyfer 12 allan o'r 13 rheolaeth a adolygwyd, gyda'r 1 yn weddill â rheolaeth boddhaol.

Ar adeg yr archwiliad, nodwyd fod y trefniadau cysoni ar gyfer rhai o'r cyfrifon wedi eu dogfennu, gyda rhai eraill angen eu cwblhau. Cofnododd yr archwiliwr fwriad yr Uned Rheolaeth i gyflawni hyn yn y tymor byr.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn y rheolaethau mewn lle ar gyfer cynnal cysoniadau banc.**

# PRAESEPTAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd i sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i sicrhau fod praeseptau cynghorau cymuned yn cael eu casglu a'u talu yn gywir ac yn amserol.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygwyd y drefn o gasglu praeseptau a lefïau ar gyfer 2009/10, drwy adolygu'r ffurflenni a llythyrau a derbyniwyd gan y Cyngor a'r dull y proseswyd hwy er mwyn codi'r symiau perthnasol. Yn ogystal, gwirwyd y symiau sydd wedi eu talu i'r cynghorau cymuned.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod trefniadau priodol mewn lle yn yr Uned Gyfrifeg a'r Uned Treth Cyngor i dderbyn manylion, eu mewnfwydo a'u gwirio yn amserol er mwyn casglu'r niferoedd priodol yn y Dreth ac yna eu talu allan i'r cynghorau cymuned ar yr adegau cywir.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y gweinyddiaeth, casglu a thalu symiau praesept gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle.**

## TREFNIADAU ANFONEBU - ADDYSG ALL-SIROL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaeth briodol mewn lle ar gyfer codi anfonebau ar awdurdodau lleol eraill am leoliadau plant gydag anghenion addysgol arbennig o'r siroedd hynny sydd yn mynychu ysgolion Gwynedd:

- Bod cofnod cyflawn a chyfoes yn cael ei gadw gan y Cyfrifydd fel bod anfonebau cywir yn cael eu codi.
- Bod anfonebau yn cael eu codi yn brydlon ac yn unol â'r *Recoupment Regulation Circular 2/95, Regulation 5.*
- Bod trefn mewn lle gan yr Awdurdod o ddilyn fyny ar ddyledion all-sirol.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol: -

- Bod trefn yn bodoli ar gyfer adnabod pa ddisgyblion all-sirol sydd yn derbyn eu haddysg yn ysgolion Gwynedd.
- Bod trefn anfonebu briodol yn bodoli.
- Bod trefniadau priodol ar gyfer dilyn fyny ar unrhyw anfonebau sydd heb eu talu.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 7 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 5 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Anfoneb – Addysg All-Sirol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cyfrifoldeb codi anfonebau wedi ei drosglwyddo i gyfrifydd neu dechnegydd cyllidol arall pan bod y cyfrifydd cyfrifol yn absennol am gyfnod hir.**
- **Angen sicrhau bod y trefniadau sydd gyda Cynghorau Ynys Môn a Chonwy yn rhai pendant a dylid ystyried os yw'n fuddiol cael cytundeb ffurfiol diweddar.**

# TRETHIANT LLEOL – CYTUNDEB ARGRAFFU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu gweinyddiaeth cylch caffael cyn-ddyfarnu cytundeb (pre-contract award) ar gyfer cytundeb argraffu'r Gwasanaeth Refeniw.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd adolygu trefniadau'r Gwasanaeth Refeniw i werthuso'r cam PQQ ar gyfer creu rhestr fer i dendro a gwerthuso'r tendr am gytundeb argraffu, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio gydag ymarfer gorau.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y Gwasanaeth Refeniw wedi penodi'r cwmni llwyddiannus o fewn yr amserlen a gynlluniwyd. Ar y cyfan roedd y broses wedi ei wneud yn unol ag egwyddorion disgwyliedig caffael. Nid yw'r gwendidau hynny a welwyd yn y broses caffael yn unigryw i'r Gwasanaeth Refeniw, ac felly mae'r argymhellion yn gymwys i unrhyw drefn gaffael cyn-ddyfarnu cytundeb yng Nghyngor Gwynedd. Y prif wendidau a adnabuwyd oedd:

- Oediad wrth osod cytundeb argraffu newydd yn arwain at drefniadau ad-hoc ac arferiadau oedd yn mynd yn groes i egwyddorion rheolau caffael cyhoeddus;
- Diffyg gwirio'r wybodaeth ar y PQQ yn fanwl.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau'r Gwasanaeth Refeniw gogyfer gosod cytundeb argraffu. Gwelwyd fod rhai o'r trefniadau caffael cyffredinol angen eu cryfhau ar draws yr awdurdod, ac felly mae argymhellion yr adroddiad yn berthnasol i holl adrannau Cyngor Gwynedd ac angen eu hybu gan yr Uned Gaffael Corfforaethol. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai Cyngor Gwynedd sicrhau bod rhestrau o gontractau gwasanaeth (service contracts) yn cael eu monitro fel bod modd gosod amser (lead time) i gynllunio ar gyfer hysbysebu a dyfarnu contract dilynol newydd.**
- **Dylid gwirio priodoldeb yr wybodaeth am unrhyw hanes o euogfarnau blaenorol, cyhuddiadau, methdaliadau, ansolfedd, a chamymddwyn cwmnïau sy'n cael eu dethol i dendro.**
- **Dylid gwirio geirda'r cwmnïau sy'n cael eu dethol i dendro, er mwyn sicrhau cywirdeb yr holiadur PQQ cyn gwahodd tendrau.**
- **Dylid sicrhau bod holl dendrau gydag amcan werth dros £50,000 yn cael eu hagor dan oruchwyliaeth swyddog o'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol er mwyn sicrhau y cofnodir pob tendr yn y gofrestr tendrau yn unol â Rheolau Sefydlog Contractau.**

# CARTREF POBL HYN PLAS Y DON, PWLLHELI
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Cartref Plas y Don, Pwllheli yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008-09 a dechrau 2009-10 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn yr archwiliad hwn, gwelwyd fod nifer o enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli yn y Cartref. Un enghraifft o hyn yw bod y Swyddog Mewn Gofal yn cynnal gwiriadau ar yr arian imprest ac arian poced y preswylwyr i gadarnhau eu bod yn cysoni â beth sydd wedi ei nodi ar eu cyfer. Fodd bynnag, gwelwyd hefyd achosion lle mae angen tynhau ar y rheolaethau mewnol, un o'r rhain yw bod angen i gronfa answyddogol y Cartref fod yn enw'r Cartref, ac nid enw unigolyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Plas y Don, Pwllheli gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid bod gwahaniaeth priodol yn bodoli mewn dyletswyddau yn y broses o archebu, gwirio anfoneb a'i ardystio i'w thalu. Mae angen swyddog awdurdodedig i lofnodi'r archeb, swyddog gwahanol i wirio'r anfoneb a llofnodi'r blychau ar y slip godio, a swyddog awdurdodedig gwahanol i ardystio'r anfoneb.**
- **Dylid bod dau berson bob amser yn llofnodi cardiau sy'n dangos cofnod o arian poced preswyliwr i gadarnhau bod y wybodaeth arno'n gywir.**
- **Dylid sicrhau bod dim mwy na gwerth pythefnos o arian poced yn cael ei gadw ar ran y preswylwyr.**
- **Dylid bod yr eiddo a gedwir ar ran y preswylwyr yn cael eu cofnodi ar y daflen cofnodi eiddo preswylwyr ynghyd â chofnod o'r eiddo'n cael ei roi yn nwylo'r teulu gyda llofnod swyddog a thyst.**
- **Dylid bod y Cartref yn cadw cofnod o drafodion y cyfrif amwynder a bod hwnnw hefyd yn cynnwys balans rhedegol. Dylid gwirio hwn i'r adroddiad a dderbynnir gan y Cyfrifydd yn fisol.**
- **Dylid sicrhau bod llofnod dau swyddog ar dderbynebau incwm.**
- **Ni ddylai unrhyw gyfrif answyddogol fod yn enw swyddog penodol. Dylid fod cyfrifon o'r math fod yn gyfrif perthnasol ar gyfer clybiau neu gymdeithasau fel gellir rhoi'r cyfrif yn enw'r Cartref a bod yr angen am ddau lofnodydd.**
- **Dylid sicrhau bod pob taflen TR24b yn cael ei lofnodi gan ddau swyddog pwrpasol. Yn ddelfrydol, dylai'r Swyddog Mewn Gofal lofnodi'r rhan 'Awdurdodwyd'.**

# GWASANAETH MORWROL
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaethau mewnol yn bodoli ac yn cael eu gweithredu yn harbyrau a thraethau Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Bod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau.
- Bod y trefniadau priodol yn cael eu dilyn gyda'r cychod a'r beiciau dwr.
- Bod rheolaeth briodol ar y drefn o godi anfonebau.
- Bod trefniadau priodol ar gyfer derbyn arian.
- Bod rheolaeth briodol ar y defnydd a wneir o gerbydau'r Cyngor.
- Bod trefniadau iechyd a diogelwch priodol mewn lle.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw nad yw ffurflenni cadarnhau angorfeydd a ffurflenni cofrestru cychod pŵer a beiciau dŵr yn cael eu cwblhau'n gyflawn o hyd a bod staff tymhorol newydd y Gwasanaeth Morwrol yn dechrau yn eu swyddi cyn i'w gwiriadau CRB glirio.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gwasanaeth Morwrol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod archebion swyddogol yn cael eu cwblhau pan archebir nwyddau / gwasanaethau ym mhob achos.**
- **Dylid sicrhau fod rhestrau eiddo yn cael eu llunio ymhob Harbwr a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol drwy eu harchwilio'n flynyddol. Dylai'r person sy'n cwblhau'r archwiliad ei arwyddo a'i dyddio fel prawf bod y rhestr wedi cael ei harchwilio.**
- **Mae angen gwneud yn siwr bod y manylion cyflawn yn cael ei gofnodi ar y ffurflenni cadarnhau angorfeydd.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflenni cofrestru cychod pwer a beiciau dwr yn cael eu cwblhau yn gyflawn ac yna yn cael eu cadw yn drefnus fel y gellir cael atynt yn gyflym os oes rhaid.**
- **Dylid codi anfonebau ynghynt ar ôl i berchenogion cychod gwblhau ag arwyddo'r ffurflen cadarnhau angorfa.**
- **Dylid sicrhau fod y trwyddedau gyrru pwrpasol gan holl staff morwrol gan gynnwys trwydded yrru trelar os ydynt yn gwneud hynny fel rhan o'u gwaith.**

# YR HAFAN, PWLLHELI
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaeth briodol yn bodoli yng ngweinyddiaeth a rheolaeth yr Hafan.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod adolygu digonol ar berfformiad ariannol yr Hafan.
- Fod trefniadau priodol ar gyfer mewnoli yr Hafan ar 1 Ebrill 2008 bellach yn weithredol.
- Fod trefn briodol o dderbyn incwm yn yr Hafan.
- Fod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau.
- Fod unrhyw daliadau ychwanegol yn ddilys ac wedi eu hawdurdodi'n briodol.
- Fod defnydd priodol o'r cyfrif imprest.
- Fod trefniadau diogelwch priodol mewn lle.
- Fod rheolaeth briodol ar gychod ac offer yr Hafan.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod yr Hafan dal ddim yn codi anfonebau drwy system dyledwyr corfforaethol y Cyngor oherwydd bod problemau technoleg gwybodaeth wedi rhwystro'r broses rhag fynd yn ei flaen a bod ffigwr incwm o £92,822.57 (diwedd 2008/09) nad oedd yr Uned Cyllid Datblygu wedi bod yn gallu ei gysoni gyda'r adroddiad 'Rhestr Anfonebau' yn parhau yng nghyfrif dros dro yr Hafan.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Yr Hafan, Pwllheli gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion yn yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid symud ymlaen i sicrhau bod anfonebau yn cael eu codi drwy system dyledwyr corfforaethol y Cyngor.**
- **Dylai'r Hafan rhestru'r dyledion nad ydynt yn gallu eu hadennill gan roi rheswm pendant, a dylent anfon y manylion ymlaen i'r Uwch Gyfrifydd yn yr Uned Cyllid Datblygu er mwyn iddo wneud trefniadau i anfon y rhestr at y Pennaeth Cyllid er mwyn derbyn yr awdurdodiad angenrheidiol.**
- **Dylai'r Hafan geisio bancio unrhyw arian maent yn ei dderbyn yn wythnosol os yn bosibl.**
- **Dylai'r Uned Cyllid Datblygu wneud trefniadau i drosglwyddo'r incwm yn y cyfrif dros dro i'r côd cyfriflyfr priodol.**
- **Dylid cwblhau archeb swyddogol pryd archebir gwasanaethau/nwyddau ac nid ar ôl derbyn yr anfoneb.**
- **Dylai'r Hafan ceisio hawlio'r TAW yn gywir ar y ffurflenni 'Cais am Ad-dalu Cyfrif Imprest' TR24.**
- **Dylid sicrhau fod y rhestr eiddo yn cael ei wirio yn flynyddol am gywirdeb a dylid cadw copi o'r rhestr ar ffeil wedi ei ddyddio a'i arwyddo gan y person sydd wedi ei wirio ddiwethaf.**

# CYDYMFFURFIAETH GYDA'R CÔD CYSYLLTIAD (CoCo)
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad oedd i sefydlu sefyllfa Cyngor Gwynedd mewn perthynas â gofynion safonau y "Code of Connection" (CoCo).

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu cydymffurfiaeth yn erbyn y 91 rheolaeth disgwyliedig yn fersiwn 3.2 o safonau CoCo gan feddiannu polisïau drafft a dogfennau prosiect a drwy drafod cynnydd gyda'r swyddogion perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at cydymffurfiaeth gyda'r "Code of Connection", yn enwedig yn y meysydd o ddogfennu polisi, logio a monitro o weithgareddau defnyddwyr a'r cread o 'swigen' ar gyfer defnyddwyr presennol y GCSx sydd yn galluogi graddfa uchel o wahanu rhwng y GCSx a prif rwydwaith y Cyngor. Mae rhan fwyaf o'r gofynion mandadol wedi eu cwblhau ac mae gwaith ar y gweill i gwblhau'r gweddill erbyn diwedd Mawrth 2010.

Mae un mater ychwanegol y mae'r archwilwyr yn credu sydd angen ei ddatrys yn y tymor byr yw'r amrywiaeth o ddeunydd gweithredadwy y gellir ei lawrlwytho o'r rhyngrwyd neu ei feddiannu fel atodiadau e-bost. Mae'r archwilwyr yn teimlo y dylid adolygu'r maes yma i sefydlu os oes gofyn gwirioneddol i feddiannu'r eitemau yma, gan ganiatáu hawliau ble mae angen a dogfennu hynny mewn achos busnes.

Yn Nhachwedd 2009, achredwyd y Cyngor gan aseswyr Government Connect i fod yn rhan o'r GCSx am flwyddyn arall. Mae gwaith sylweddol wedi ei gwblhau gan swyddogion i gael yr achrediad yma. Mae yn hanfodol bod momentwm yn cael ei gadw er mwyn cyflawni y tasgau sydd i'w cwblhau ynghyd â'r gwaith ychwanegol y bydd ei angen i gydymffurfio mewn adolygiadau Government Connect yn y dyfodol. Dylid nodi y bydd adolygiad Government Connect yn 2010 yn seiliedig ar fersiwn 4.1 o CoCo.

**Barn yr Archwiliwr**

**(B) Barn yr archwiliwr yw y gellir datgan sicrwydd rhannol ar gydymffurfiaeth Cyngor Gwynedd gyda gofynion y safonau 'Code of Connection'. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai ysgolion sydd yn prosesu data 'cyfyngedig' (IL3) gael cyfrifiadur ar wahân (wedi ei osod a'i gynnal gan Wasanaeth TG Gwynedd) sydd â mynediad Citrix i gyfleusterau GCSx.**
- **Dylid pob dyfais rhwydwaith gyda cyfrifon gweinyddu generig gael eu gosod i gael cyfrifon ar wahân ble mae'n bosibl.**
- **Dylid cynnal adolygiad o'r deunydd y gellir ei lawrlwytho er mwyn sefydlu os oes angen hawliau i lawrlwytho cymaint o amrywiaeth o ddeunydd gweithredadwy o'r Wê.**

# CASGLU DATA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AT BWRPASAU RHEOLI PERFFORMIAD

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymglymu at egwyddorion rheoli perfformiad fel y pennir o dan gyfundrefn "Cyflawni" a bod staff yn ymwybodol ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan y gyfundrefn.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio gweithdrefnau gwasanaethau unigol er mwyn sefydlu sut maent yn ymdrin â data oddi fewn eu cyfrifoldebau a chadarnhau bod y gweithdrefnau a sefydlwyd yn seiliedig ar bolisïau a chanllawiau corfforaethol y Cyngor. Mae'r archwiliad hwn wedi ei gynllunio mewn ymgynghoriad â Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o waith dilyniant Adolygiad ar y Cyd.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod rhai enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau casglu data a rheoli perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli.**

- **Dylid penderfynu ar strwythur rheoli perfformiad priodol ar gyfer anghenion yr Adran a gweithredu ar hyn cyn gynted a phosib.**
- **Dylid darparu rhaglen hyfforddiant penodol i Reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn pwysleisio pwysigrwydd a threfniadau rheoli gwybodaeth a data perfformiad.**
- **Dylid edrych yn fanwl i achosion ble mae nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng yr ymholiad dechreuol a chwblhau'r cynllun gofal yn uchel er mwyn darganfod y rhesymau dros hyn, a dysgu gwers o hyn er mwyn sicrhau nad yw'n digwydd yn y dyfodol.**
- **Dylai bod y Gwasanaeth yn edrych yn benodol ar ddata SCA005a er mwyn pennu dyddiadau cychwyn a gorffen pob achos yn gywir a llunio cyfarwyddiadau ymarfer ar gyfer y dyfodol.**
- **Dylid ymdrechu i gyfuno data gofal cartref gyda ffynonellau data eraill ar un system fel y gellir cynhyrchu darlun mwy cywir ar gyfer y dangosyddion perfformiad.**
- **Dylai bod gan yr Adran gytundeb mewn lle i sicrhau bod y gwasanaethau yn adrodd ar eu data yn rheolaidd h.y. yn fisol.**
- **Dylai bod swyddog cyfrifol o fewn yr Adran yn cael ei benodi i sicrhau bod data hwyr yn cael sylw mewn adroddiadau.**
- **Dylid rhoi polisïau a gweithdrefnau mewn lle yn dilyn strwythuro trefniadau rheoli gwybodaeth a data perfformiad yr Adran.**

# PLANT - LWFANSAU MABWYSIADU, GORCHYMYN PRESWYL A GWARCHEIDIAETH ARBENNIG

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod trefniadau ariannol priodol ar gyfer gweinyddu Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig ym mhob ardal er mwyn hwyluso cynllunio parhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a bod hyn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a Deddf Plant 1989 (fel a ddiwygiwyd gan Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a Rheoliadau Lwfans Mabwysiadu 1991).

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio sampl o'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008-09 ynghyd â threfniadau rheolaeth y cynllun.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif darganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oedd trefn briodol i sicrhau bod gofalwyr yn cwblhau datganiadau ariannol yn flynyddol a'u bod yn cael eu hadolygu gan yr Adran yn unol â Rheoliadau Lwfans Mabwysiadu 1991 a pholisi Gweithdrefn Gwarcheidiaeth Arbennig 2006 yr Adran. Nid oedd posib lleoli 3 o'r ffeiliau a ddewiswyd yn y sampl archwilio, a nid oedd y ffeiliau a archwiliwyd o hyd yn drefnus ac yn cynnwys pob gwaith papur a ddisgwyliwyd i fod arnynt.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw'r na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y gofalwyr yn cwbwlhau datganiad ariannol yn flynyddol a bod y gwasanaeth yn cynnal adolygiad arnynt yn flynyddol yn unol â rheolaethau lwfans mabwysiadu 1991.**
- **Dylid sicrhau fod datganiadau ariannol yn cael eu cadw ar ffeil.**
- **Dylid sicrhau fod ffeiliau yn bodoli i bob plentyn sydd wedi cael eu mabwysiadu o fewn y 5 mlynedd diwethaf, ac eu bod yn cynnwys holl wybodaeth perthnasol yn ymwneud â'r plentyn.**
- **Dylid sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu cadw ar ffeiliau y plant ac wedi eu harwyddo gan y Gweithiwr Cymdeithasol.**
- **Dylid sicrhau fod copïau o'r cais am orchymyn preswyl i'r llys yn cael eu cadw ar ffeiliau'r plant er mwyn sicrhau fod tystiolaeth i gefnogi'r broses.**
- **Dylid sicrhau fod copi o benderfyniad y llys yn ymwneud â'r gorchymyn preswyl yn cael ei gadw ar ffeil er mwyn sicrhau fod tystiolaeth i gefnogi'r broses.**
- **Dylid sicrhau bod copi o'r cais am warcheidiaeth arbennig i'r llys yn cael ei gadw ar ffeil y plentyn fel tystiolaeth i gefnogi'r proses.**

# SAFLEOEDD GWASTRAFF AILGYLCHU
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r rheolaethau a'r trefniadau sy'n bodoli o fewn y safleoedd ailgylchu.

Cwmpas yr Archwiliad

Llunnir yr adroddiad drwy asesu trefniadau cyfredol Cyngor Gwynedd gogyfer diogelwch defnyddwyr y safleoedd ailgylchu, a sicrhau fod holl staff sy'n gweithio o fewn y safleoedd wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w swydd. Yn ogystal sicrhau fod costau rhedeg y safleoedd yn unol â'r gyllideb a osodwyd a bod y gyllideb yn cael ei rheoli yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif Ddarganfyddiadau'r Archwiliad oedd:

- Diffyg cysondeb rhwng y safleoedd wrth i'r gweithwyr gynnal arolygon ar y safleoedd.
- Rheolwyr ddim yn cynnal arolygon siawns rheolaidd ar y safleoedd.
- Asesiadau risg blynyddol ddim yn cael eu cynnal ar y safleoedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Safleoedd Gwastraff Ailgylchu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y Llawlyfr yn cael ei ddiweddaru'n gyson os yw polisïau Cyngor Gwynedd yn cael eu newid.**
- **Dylid sicrhau fod cynnwys y Llawlyfr yn gywir ac yn cynnwys adran am 'Drefniadaeth Tân'.**
- **Dylid sicrhau fod pob gweithiwr sy'n gweithio o fewn y safleoedd ailgylchu yn derbyn hyfforddiant priodol i'r swydd.**
- **Dylid sicrhau bod asesiad risg blynyddol yn cael ei gynnal ar y Safleoedd Ailgylchu.**
- **Dylid sicrhau fod rheolwyr yn cynnal arolygon yn rheolaidd ar y safleoedd.**
- **Dylid cyflwyno'r drefn o arolygu safle gan Rheolwyr i safle ailgylchu (cyhoeddus) Caergylchu gan ddefnyddio'r 'Rhestr Wirio' i gofnodi'r archwiliad.**
- **Dylid cyflwyno'r drefn archwilio safle ac archwilio peiriannau ac offer dyddiol i safle ailgylchu (cyhoeddus) Caergylchu.**

# CEFNOGI POBL
## Tai

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod y rheolaethau mewnol priodol mewn lle wrth weinyddu'r cynllun Cefnogi Pobl.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r trefniadau sydd ynghlwm â gweinyddu'r cynllun Cefnogi Pobl.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod llawer o esiamplau o ymarfer da wrth weinyddu grant Cefnogi Pobl. Yr unig bwynt a godwyd o safbwynt Cefnogi Pobl oedd bod argymhelliad o adroddiad blaenorol heb ei gweithredu.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cefnogi Pobl gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Mae un argymhelliad:**

- **Dylid creu amserlen ar gyfer y broses o newid y cytundebau gyda'r darparwyr i'r math newydd.**

# CYNLLUN WARDEN STÂD
## Tai

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yn y gwasanaeth Warden Tai Gwarchod a bod unrhyw daliadau ychwanegol yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Sicrhau bod y Wardeiniaid wedi derbyn hyfforddiant priodol sy'n eu galluogi i ymgymryd â'u swyddogaethau yn ogystal ag edrych bod rheolaethau priodol yn bodoli mewn perthynas â gwirio larymau a thalu am oriau goramser.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod enghreifftiau o ymarfer da yn llawer o'r profion yma, er hyn mae hefyd angen i dynhau ychydig ar rai o'r rheolaethau fel y gellid lleihau'r risgiau perthnasol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Cynllun Warden Stâd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r warden lofnodi'r daflen ymweld ar ddiwedd yr wythnos a sicrhau bod llofnod ar gyfer y tenantiaid neu reswm digonol pan nad yw hynny'n bosib. Yn ychwanegol, byddai'n fuddiol petai'r Wardeiniaid yn defnyddio yr un ffurflen er mwyn sicrhau cysondeb ac i sicrhau fod y Wardeiniaid yn ei arwyddo.**
- **Dylai'r Wardeiniaid sicrhau eu bod yn cadw gwybodaeth bersonol y tenantiaid o dan glo, fel nad yw unigolion anawdurdodedig yn gallu cael mynediad iddynt.**
- **Dylid sicrhau bod y Wardeiniaid yn llenwi'r taflenni arbrofion clychau argyfwng yn gywir fel bod prawf o'r gwiriadau, h.y. bod dyddiad y gwiriad yn cael ei nodi, bod llofnod gan y tenantiaid yn ogystal â llofnod y Warden. Ymhellach, dylid sicrhau fod gwiriadau'n cael eu gwneud ar dai'r tenantiaid sydd ddim adref yn ystod y gwiriad cyntaf, o fewn pythefnos.**
- **Dylid bod gan Ardal Meirionnydd gofnod sy'n profi fod tenantiaid wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system Llinell Bywyd.**
- **Dylid sicrhau bod wardeiniaid Ardal Arfon yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio â thân cyn gynted â phosib.**
- **Dylid sicrhau bod y drefn o wirio'r larwm tân yn cychwyn cyn gynted â phosib yn y mannau lle nad yw hyn yn digwydd eisoes. Ymhellach, dylid bod swyddog perthnasol yn gwirio'r cofnodion i sicrhau bod y profion yn cael eu cynnal yn unol â'r cyfarwyddiadau yn y Cynllun rheolaeth Tân.**
- **Dylid sicrhau bod dyledwyr ond wedi eu cofnodi yn y cyfriflyfr unwaith a bod dim cofnodion dyblyg.**

# GORWARIANT INTEGREIDDIO
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad ymatebol yma yw darganfod sut y bu i orwariant sylweddol ar y gyllideb integreddio disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig i'r prif-lif ddod i'r amlwg yn ystod yr adolygiad ail chwarter, a pha ffactorau sydd wedi cyfrannu tuag at y gorwariant, a'r methiant i'w ddarganfod yn gynharach.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu nifer y disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth trwy'r ddarpariaeth Integreiddio ers Hydref 2008, er mwyn adnabod patrymau neu reswm penodol am y gwariant uwch na'r disgwyl.

Hefyd, adolygu'r trefniadau o fewn yr Adran Addysg a'r Uned Gyllid Datblygu er mwyn adnabod unrhyw resymau penodol na fu i'r gorwariant rhagweledig ddod i'r amlwg ynghynt.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd twf sylweddol yn yr oriau Integreiddio a gyflawnwyd. Fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth fod y ceisiadau am gymorth Integreiddio yn cael eu cyflwyno i'r Panel Cymedroli, a fod y panel hwnnw yn herio'r ceisiadau yn unol â'r gyfundrefn bresennol.

Deëllir mai bwriad gwreiddiol y gyfundrefn 3* oedd arbed costau yn y pen draw, ac osgoi'r costau uwch sy'n ymglymedig â'r broses ddatganiad. Mae canlyniadau'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn yn awgrymu'r gryf fod angen adolygu bodolaeth y gyfundrefn 3*, gan fod y cynnydd diweddar o'i ddefnydd yn anghynaladwy.

Gwelwyd cynnydd sylweddol ac arwyddocaol yn nifer y disgyblion ag asesiad 3*, a'r oriau o ofal cymhorthydd sy'n ymglymedig â hynny. Gan fod yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal gan athrawon yn yr ysgolion, yn hytrach na gan seicolegwyr, cefnogir bwriad yr Adran Addysg i sefydlu trefn o ymweld ag ysgolion er mwyn ail-sgorio rhai o'r plant ar asesiad 3*.

***Bwriedir cynnal ymchwiliad pellach gan arbenigwyr annibynnol i agweddau o'r tueddiadau a'r gofynion yn y maes o'i gymharu ag awdurdodau eraill. Disgwylir adroddiad i'r Grwp Arweinyddiaeth ar hynny yn ystod 2010.***

**Barn yr Archwiliad**

**Barn yr archwiliad yw fod y cynnydd yn nifer yr oriau Integreiddio o'r math a welwyd rhwng Hydref 2008 ac Ebrill 2009 yn anghynaladwy, ac mae gorwariant blynyddol yn anochel os bydd hyn yn parhau. Ni welwyd tystiolaeth fod y drefn o ddatganoli'r gyllideb Integreiddio i'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd mwyaf wedi gwella rheolaeth dros y gyllideb hyd yn hyn. Mae angen cynnal adolygiad o fodolaeth y cynllun 3*, ac os bydd yn parhau, bydd angen herio'r ysgolion sydd wedi cyflwyno cais er mwyn sicrhau fod pob cais sy'n dod o'r ysgolion, heb fewnbwn seicolegydd addysg, yn ddilys.**